

## FITZ ALAN, arglwyddi Croesoswallt, Clun, ac Arundel

Cawn fod y teulu mewn meddiant o ardal Croesoswallt ym mlynnyddoedd cynnar y 12fed ganrif, ond heriwyd eu hawl gan [Maredudd ap Bleddyn](#). Yn ystod teyrnasiad Steffan (1135-54) cynorthwyodd WILLIAM FITZ ALAN Matilda, a phan fu raid iddo ffoi cymerodd [Madog ap Maredudd](#) feddiant o'r ardal, i'w cholli wedyn rywbryd cyn ei farwolaeth yn 1160. Ymladdodd William Fitz Alan yn erbyn y Cymry yn 1157, a bu ei fab - a oedd o'r un enw ag ef - yn lletya [Gerallt Gymro](#) a'r archesgob Baldwin yng nghastell Croesoswallt yn 1188. Oddeutu 1200, oherwydd ei briodas ag Isabel, merch ac etifeddes Elias de Say, daeth tiroedd Clun i'w feddiant; ac yn y flwyddyn 1202 bu'n cynorthwyo [Gerallt Gymro](#) yn ei ymdrech am esgobaeth Tyddewi. Ymosododd y brenin John ar dref Croesoswallt yn 1216, a llosgodd hi am fod JOHN FITZ ALAN, un o'i wrthwynebwyr, yn gyfeillgar â [Llywelyn Fawr](#) hyd y flwyddyn 1217. John Fitz Alan oedd un o gynrychiolwyr y Goron yn yr anghydfod a fu rhwng Harri III a [Llywelyn Fawr](#) yn 1226; ac yn yr un flwyddyn bu'n gyfryngwr rhwng William Pantulf, arglwydd Wem yn Sir Amwythig, a [Madog ap Gruffydd](#). Yn ystod y brwydro rhwng Harri III, [Richard Marescal](#), a [Llywelyn Fawr](#), yn 1233-4, yr oedd John Fitz Alan o blaid y Goron, ac ymosodwyd ar Groesoswallt gan y Cymry. Daeth y briodas rhwng John Fitz Alan ac Isabel, cyd-etifeddes Huw d'Aubigny, arglwydd Arundel, ag arglwyddiaeth Arundel a'r teitl o iarll i deulu Fitz Alan yn 1243.

Ceisiodd [Gwenwynwyn](#) gael cynhorthwy arglwydd Croesoswallt yn erbyn [Llywelyn ap Gruffydd](#) yn 1257, ac yr oedd John Fitz Alan yn un o'r llu Seisnig a orchfygwyd gan y Cymry yng Nghymerau yn yr un flwyddyn. Yn 1258 yr oedd John Fitz Alan yn un o arweinwyr Saeson y gororau; yn 1260 galwyd arno am wasanaeth milwrol yn erbyn y Cymry; yn 1278-82 yr oedd ei feibion yn flaenllaw ymhlith y rhai a ymosododd ar diroedd Llywelyn ap Gruffydd ap Madog.

Pan amgylchynwyd castell y Bere, ger Tywyn, yn 1294, RICHARD FITZ ALAN a oedd yn arwain y fyddin a anfonwyd i gynorthwyo'r rhai a warchaewyd, a bu hefyd yn flaenllaw mewn llawer brwydr arall yn erbyn y Cymry. Yn ystod blynyddoedd olaf Edwart II, bu EDMWND, mab Richard, yn Ustus Cymru, yn geidwad ar y gororau, yn gapten y lluoedd yng Nghymru, ac yn gwnstabl ar gastell Trefaldwyn. Yr oedd ei fab, RICHARD, yn gwnstabl yng nghastell Caernarfon, yn Ustus tywysogaeth y Gogledd, ac yn un o'r cynorthwywyr ffyddlonaf yng Nghymru i Edwart y Tywysog Du.

Yn nechrau y 15fed ganrif bu THOMAS FITZ ALAN yn un o'r comisiwn a enwyd i amddiffyn y gororau ar ôl brwydr Amwythig, 1403, ac yn y flwyddyn ddilynol bu'n arwain y fyddin frenhinol yng Ngogledd Cymru yn erbyn [Owain Glyndwr](#).

### Awdur

Ivor John Sanders, (1911 - 1991)

### Ffynonellau

*The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom* (1887–1898), i, v, 1910, 1926

J. Goronwy Edwards, *Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales* (1935), *Littere Wallie* (1940)

J. E. Lloyd, [A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#), Cyf. I

J. E. Lloyd, [A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#), Cyf. II

D. C. Roberts, 'Lordship of Oswestry' (traethawd yn y Llyfrgell Genedlaethol)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1590098](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.